Mr.Emlyn Penny-Jones,
Cadeirydd y Llywodraethwyr,
*Chairman of Governors,*
Ysgol Gyfun Garth Olwg,
37, The Ridings,
Tonteg,Pontypridd/
CF38 1PL

RECEIVED
14 JAN 2008
ARSD

Parthed: Dileu Enw Ysgol Gyfun Rhydfelen

Annwyl M/s Lewis

Rydym wedi cael ar ddeall fod y Cynulliad wedi dyfarnu o blaid Awdurdod Addysg Rhondda Cynon Taf parthed y weithred o newid enw Ysgol Gyfun Rhydfelen, a'i ddull o sicrhau'r newid hwn.

Mae hyn yn destun syndod a gofid i ni. Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau pell-gyrhaeddol o safbwynt pwerau a hawliau byrddau llywodraethol ysgolion. Mae hefyd, wrth gwrs, yn cadarnhau penderfyniad di-sail a di-angen yr Awdurdod i ddileu enw ysgol sydd â lle mor amlwg yn hanes Addysg Cymru, a hynny'n gwbl groes i'r farn a leisiwyd yn gyson gan lywodraethwyr yr ysgol, y rhieni, disgyblion, trwy Gyngor yr Ysgol, a staff.

Deallwn fod yr Arglwydd Gwilym Prys Davies eisoes wedi cysylltu trwoch chi ag aelodau'r Pwyllgor Deisebau. Carem ategu ei gais am ddiwygiad cyflym o'r is-ddeddfwriaethau perthnasol, gan ddychwelyd yr hawl i newid enw ysgol i'w llywodraethwyr. Gwerthfawrogem, felly, pe baech yn pasio copi o'r sylwadau hyn a'n henwau ymlaen at holl aelodau'r Pwyllgor Deisebau.

*Dear M/s Lewis*
*We understand that the Assembly has found in favour of the Rhondda-Cynon-Taf Education Authority's action in changing the name of Ysgol Gyfun Rhydfelen, and of the methods used to bring about this change.*

*We find this to be a matter of disappointment and consternation. The decision has far-reaching obligations with respect to the powers and rights of school governing bodies in general. It also, of course, ratifies the Authority's ill-founded and unwarranted decision to eliminate a school name which has had such prominence in the history of Welsh education, and in doing so, to flout the opinion consistently expressed by the school's governors, parents, pupils, through the School Council, and staff.*

*We understand that Lord Gwilym Prys Davies has already contacted the members of the Petitions Committee. We wish to support his request for a speedy amendment of the relevant legislation, whereby the right to change the name of a school is returned to its governors.*

*We should be grateful, therefore, if you could forward a copy of these comments, together with our names, to all members of the Petitions Committee.*

Yn gywir,
*Yours sincerely,*

Emlyn Penny-Jones